ardaloedd hyn er mwyn ymgymryd â chwrs dynodedig, yn preswylio fel arfer yn y lle y symudodd ohono (Atodlen 1, paragraff 1(3)). Rhaid i fyfyriwr cymwys fodloni hefyd unrhyw ofynion a bennir mewn mannau eraill yn y Rheoliadau; yn enwedig y gofynion penodol sy'n gymwys i bob math o gymorth ariannol.

Ar gyfer cyrsiau "dynodedig" o fewn ystyr rheoliadau 5, 78, 95, 121 ac Atodlen 2, yn unig, y mae cymorth ar gael o dan y Rheoliadau.

Mae'r gwahaniaeth (a gyflwynwyd gan Reoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2006) rhwng myfyrwyr cymwys o dan yr hen drefn a myfyrwyr cymwys o dan y drefn newydd o ran cymorth ariannol i fyfyrwyr ar gyfer cyrsiau llawnamser wedi ei gadw yn y Rheoliadau hyn (rheoliad 2(1)).

Myfyrwyr cymwys o dan yr hen drefn yw myfyrwyr cymwys sy'n dilyn cyrsiau a ddechreuodd cyn 1 Medi 2006, myfyrwyr a gymerodd flwyddyn i ffwrdd ac sy'n dechrau ar gyrsiau cyn 1 Medi 2007 a chategorïau penodol eraill o fyfyrwyr. Mae'r grantiau a'r benthyciadau canlynol ar gael i fyfyrwyr cymwys o dan yr hen drefn, yn ddarostyngedig i'r amodau a ragnodir yn y rheoliadau perthnasol—

- Grant ar gyfer ffioedd (rheoliadau 16 i 18);
- Benthyciad cyfrannu at ffioedd (rheoliad 22);
- Grant at gostau byw myfyrwyr anabl (rheoliad 29);
- Grantiau ar gyfer dibynyddion (rheoliadau 30 i 35);
- Grant at deithio (rheoliadau 37 i 39);
- Grant addysg uwch (rheoliad 40); a
- Benthyciadau at gostau byw (Rhan 6).

Mae myfyriwr cymwys o dan y drefn newydd yn fyfyriwr cymwys a ddechreuodd ei gwrs ar neu ar ôl 1 Medi 2006 ac yn parhau ar y cwrs hwnnw ar ôl 31 Awst 2013, neu sy'n dechrau ei gwrs presennol ar neu ar ôl 1 Medi 2013, ac nad yw'n fyfyriwr cymwys o dan yr hen drefn. Mae'r grantiau a'r benthyciadau canlynol ar gael i fyfyrwyr cymwys o dan y drefn newydd, yn ddarostyngedig i'r amodau a ragnodir yn y rheoliadau perthnasol—

- Grant at ffioedd (rheoliad 19);
- Grant newydd at ffioedd (rheoliad 20);
- Benthyciad at ffioedd (rheoliadau 23 a 24);

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 3097 (Cy. 313)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *12 Rhagfyr 2012* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *14 Rhagfyr 2012* |
| *Yn dod i rym* | *4 Ionawr 2013* |

## TREFN Y RHEOLIADAU


RHAN 1

CYFFREDINOL

1. Enwi, cychwyn a chymhwyso
2. Dehongli
3. Dirymu, arbedion a darpariaethau trosiannol

RHAN 2

CYMHWYSTRA

4. Myfyrwyr cymwys
5. Cyrsiau dynodedig
6. Cyfnod cymhwystra
7. Astudio blaenorol
8. Trosglwyddo statws

RHAN 3

GWNEUD CAIS AM GYMORTH A RHOI GWYBODAETH

9. Ceisiadau am gymorth
10. Terfynau amser
11. Gwybodaeth
12. Gofyniad i ymrwymo i gontract ar gyfer benthyciad

## RHAN 12
## CYMORTH AT GYRSIAU RHAN-AMSER


93. Myfyrwyr rhan-amser cymwys
94. Myfyrwyr sy’n dod yn gymwys yn ystod y flwyddyn academaidd
95. Cyrsiau rhan-amser dynodedig
96. Cyfnod cymhwystra
97. Cymorth at gyrsiau rhan-amser (grant at ffioedd, a grant at lyfrau, teithio a gwariant arall)
98. Grantiau at gostau byw myfyrwyr rhan-amser anabl
99–100. Grantiau rhan-amser ar gyfer dibynyddion – cyffredinol
101. Grant rhan-amser ar gyfer dibynyddion mewn oed
102. Grant rhan-amser ar gyfer gofal plant
103. Lwfans dysgu rhan-amser ar gyfer rhieni
104. Grantiau rhan-amser ar gyfer dibynyddion – y cyfrifiadau cychwynnol
105. Grantiau rhan-amser ar gyfer dibynyddion – dehongli
106. Grantiau rhan-amser ar gyfer dibynyddion –cyfrifo’r cyfraniad
107. Grantiau rhan-amser ar gyfer dibynyddion – cymhwyso’r cyfraniad
108. Grantiau rhan-amser ar gyfer dibynyddion – y cyfrifiad terfynol
109. Ceisiadau am gymorth
110. Cymorth at ffioedd o ran presenoldeb ar gwrs yn Lloegr, Gogledd Iwerddon neu’r Alban
111. Gwybodaeth a materion eraill
112. Trosglwyddo statws
113. Trosi statws
114–115. Talu cymorth i fyfyrwyr rhan-amser cymwys
116. Dehongli rheoliad 115
117. Talu grantiau ar gyfer ffioedd
118. Gordaliadau


## RHAN 13
## CYMORTH I FYFYRWYR ÔL-RADDEDIG SYDD AG ANABLEDDAU


119. Myfyrwyr ôl-raddedig cymwys
120. Myfyrwyr sy’n dod yn gymwys yn ystod y flwyddyn academaidd

# PENNOD 1

## GRANTIAU AR GYFER FFIOEDD

### Grantiau ar gyfer ffioedd: amodau'r hawl i'w cael ar gyfer myfyrwyr cymwys o dan yr hen drefn

**16.**—(1) Yn ddarostyngedig i reoliadau 6 a 7, mae gan fyfyriwr cymwys o dan yr hen drefn hawl yn unol â'r rheoliad hwn i gael grant mewn perthynas â'r ffioedd am flwyddyn academaidd sy'n daladwy gan y myfyriwr mewn perthynas â phresenoldeb y myfyriwr ar gwrs dynodedig, neu mewn cysylltiad â'r presenoldeb hwnnw mewn modd arall.

(2) Pennir swm y grant ar gyfer ffioedd mewn perthynas â blwyddyn academaidd yn unol â rheoliad 17 neu 18.

(3) Nid oes gan fyfyriwr cymwys o dan yr hen drefn hawl i gael grant ar gyfer ffioedd mewn perthynas â blwyddyn academaidd o gwrs dynodedig—

(a) os yw'r flwyddyn honno yn flwyddyn bwrsari neu'n flwyddyn Erasmus; neu

(b) os yw'r cwrs dynodedig yn gwrs HCA ôl-radd hyblyg.

### Swm y grantiau ar gyfer ffioedd mewn sefydliad a ariennir yn gyhoeddus ac mewn sefydliad preifat ar ran sefydliad a ariennir yn gyhoeddus: myfyrwyr cymwys o dan yr hen drefn

**17.**—(1) Oni fydd un o'r amgylchiadau a nodir ym mharagraff (4) yn gymwys, swm sylfaenol y grant ar gyfer ffioedd ar gyfer myfyriwr cymwys o dan yr hen drefn mewn perthynas â blwyddyn academaidd cwrs dynodedig mewn sefydliad a ariennir yn gyhoeddus yw'r swm lleiaf o'r canlynol—

(a) £1,380 os darperir y cwrs gan sefydliad yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban: neu

(b) £1,425 os darperir y cwrs gan sefydliad yng Ngogledd Iwerddon, a

(c) y ffioedd sy'n daladwy gan y myfyriwr cymwys o dan yr hen drefn mewn cysylltiad â'r flwyddyn honno.

(2) Swm sylfaenol y grant ar gyfer ffioedd ar gyfer myfyriwr cymwys o dan yr hen drefn mewn perthynas â blwyddyn academaidd o gwrs dynodedig mewn sefydliad a ariennir yn gyhoeddus pan fo un o'r amgylchiadau ym mharagraff (4) yn gymwys yw'r lleiaf o'r canlynol—

(a) £680 os darperir y cwrs gan sefydliad yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban; neu

(b) £700 os darperir y cwrs gan sefydliad yng Ngogledd Iwerddon; a

gyfnodau o astudio llawnamser yn y sefydliad yn y Deyrnas Unedig (gan anwybyddu gwyliau yn y cyfamser) yn fwy na 30 wythnos.

(5) Yn achos cwrs dynodedig yng Ngholeg Heythrop, swm y grant ar gyfer ffioedd mewn perthynas â blwyddyn academaidd yw £2,465.

(6) Yn achos cwrs dynodedig yn Ysgol Cerdd a Drama Guildhall, swm y grant ar gyfer ffioedd mewn perthynas â blwyddyn academaidd yw £5,030.

(7) Swm sylfaenol y grant ar gyfer ffioedd mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd mewn sefydliad preifat sy'n darparu cwrs dynodedig ar ran sefydliad a ariennir yn gyhoeddus yw'r lleiaf o £1,285 a'r ffioedd sy'n daladwy gan y myfyriwr mewn cysylltiad â'r flwyddyn honno—

(a) os dechreuodd y cwrs dynodedig ar neu ar ôl 1 Medi 2001;

(b) os darperir y cwrs dynodedig ar ran sefydliad a ariennir yn gyhoeddus; ac

(c) os nad yw unrhyw un o'r amgylchiadau ym mharagraff (4) yn gymwys.

(8) Swm sylfaenol y grant ar gyfer ffioedd mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd mewn sefydliad preifat sy'n darparu cwrs dynodedig ar ran sefydliad a ariennir yn gyhoeddus yw'r lleiaf o'r symiau canlynol, sef £680 a'r ffioedd sy'n daladwy gan y myfyriwr cymwys o dan yr hen drefn mewn cysylltiad â'r flwyddyn honno—

(a) os dechreuodd y cwrs dynodedig ar neu ar ôl 1 Medi 2001;

(b) os darperir y cwrs dynodedig ar ran sefydliad a ariennir yn gyhoeddus; ac

(c) os yw un neu fwy o'r amgylchiadau ym mharagraff (4) yn gymwys.

(9) Pan gyfrifir cyfraniad sy'n fwy na dim o dan Atodlen 5, gwneir didyniad o swm y grant ar gyfer ffioedd a benderfynir o dan baragraff (7) neu (8) yn unol â rheoliad 67.

**Swm y grant ar gyfer ffioedd mewn sefydliad preifat (nid ar ran sefydliad a ariennir yn gyhoeddus): myfyrwyr cymwys o dan yr hen drefn**

**18.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), swm y grant ar gyfer ffioedd mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd cwrs dynodedig mewn sefydliad preifat yw'r lleiaf o'r canlynol—

(a) £1,285; a

(b) y ffioedd sy'n daladwy gan y myfyriwr mewn cysylltiad â'r flwyddyn honno.

(c) Nid yw paragraff (2) yn gymwys mewn perthynas â chwrs mynediad graddedig carlam.

**Benthyciadau cyfrannu at ffioedd (i fyfyrwyr cymwys o dan yr hen drefn)**

**22.**—(1) Mae gan fyfyriwr cymwys o dan yr hen drefn hawl i gael benthyciad cyfrannu at ffioedd mewn perthynas â blwyddyn academaidd cwrs dynodedig—

(a) os oes ganddo hawl i gael grant ar gyfer ffioedd mewn cysylltiad â'r flwyddyn honno neu os byddai wedi bod yn gymwys pe byddai wedi gwneud cais am y grant (hyd yn oed pe byddai swm y grant wedi bod yn ddim); a

(b) os darperir y cwrs dynodedig gan neu ar ran sefydliad a oedd yn cael ei ariannu'n gyhoeddus ar 1 Awst 2005.

(2) Os yw myfyriwr cymwys o dan yr hen drefn yn gwneud cais am grant ar gyfer ffioedd ac am fenthyciad cyfrannu at ffioedd, swm y benthyciad cyfrannu at ffioedd mewn perthynas â blwyddyn academaidd ar y cwrs dynodedig yw'r swm y mae'r myfyriwr cymwys o dan yr hen drefn yn gwneud cais amdano, a hwnnw'n swm nad yw'n fwy na'r swm a ddidynnwyd o'i grant ar gyfer ffioedd yn unol â rheoliad 67.

(3) Os benthyciad cyfrannu at ffioedd yw'r unig gymorth at ffioedd y mae myfyriwr cymwys o dan yr hen drefn yn gwneud cais amdano, swm y benthyciad hwnnw mewn perthynas â blwyddyn academaidd cwrs dynodedig yw—

(a) y swm y mae'r myfyriwr cymwys o dan yr hen drefn yn gwneud cais amdano, a hwnnw'n swm nad yw'n fwy na £1,380 neu, os oes unrhyw rai o'r amgylchiadau yn rheoliad 17(4) yn gymwys, £680, os yw'r cwrs yn cael ei ddarparu gan sefydliad yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban; neu

(b) y swm y mae'r myfyriwr cymwys o dan yr hen drefn yn gwneud cais amdano a hwnnw'n swm nad yw'n fwy na £1,425 neu, os oes unrhyw rai o'r amgylchiadau yn rheoliad 17(4) yn gymwys, £700, os yw'r cwrs yn cael ei ddarparu gan sefydliad yng Ngogledd Iwerddon.

(4) Caiff myfyriwr cymwys o dan yr hen drefn wneud cais am fenthyg swm ychwanegol o fenthyciad cyfrannu at ffioedd—

(a) os yw Gweinidogion Cymru yn penderfynu y dylid cynyddu uchafswm y benthyciad cyfrannu at ffioedd (gan gynnwys rhoi swm pan na roddwyd dim ynghynt) sydd wedi ei hysbysu i'r myfyriwr cymwys o dan yr hen drefn mewn perthynas â blwyddyn

aelwyd pan fo'n gwneud cais am grant cynhaliaeth a bod ganddo hawl i gael grant cynhaliaeth o £664;

(ii) £1,329, os myfyriwr math 2 ar gwrs hyfforddi athrawon yw'r myfyriwr, sy'n dewis peidio â darparu'r wybodaeth y mae ei hangen ar gyfer cyfrifo incwm yr aelwyd pan fo'n gwneud cais am grant cynhaliaeth a bod ganddo hawl i gael grant cynhaliaeth o £1,329;

(iii) dim, pan nad yw'r myfyriwr yn fyfyriwr math 1 ar gwrs hyfforddi athrawon nac yn fyfyriwr math 2 ar gwrs hyfforddi athrawon.

(2) Yn ddarostyngedig i reoliadau 57 i 62, mae uchafswm y benthyciad at gostau byw y mae gan fyfyriwr sydd â hawlogaeth ostyngol hawl i'w gael mewn perthynas â blwyddyn academaidd cwrs sy'n flwyddyn derfynol cwrs nad yw'n gwrs dwys, fel a ganlyn—

(a) os yw'r myfyriwr yn dod o fewn rheoliad 28(3)(a), ar gyfer myfyriwr o'r fath—

(i) yng nghategori 1, yn £1,437;

(ii) yng nghategori 2, yn £2,711;

(iii) yng nghategori 3, yn £1,966;

(iv) yng nghategori 4, yn £1,966;

(v) yng nghategori 5, yn £1,966.

(b) os yw'r myfyriwr yn dod o fewn rheoliad 28(3)(b) neu 28(5), ar gyfer myfyriwr o'r fath—

(ii) yng nghategori 1, yn £1,437;

(i) yng nghategori 2, yn £2,711;

(ii) yng nghategori 3, yn £2,204;

(iii) yng nghategori 4, yn £2,204;

(iv) yng nghategori 5, yn £1,966.

(c) os yw'r myfyriwr yn gwneud cais am fenthyciad at gostau byw ac yn dewis peidio â rhoi'r wybodaeth y mae ei hangen i gyfrifo incwm ei aelwyd, swm hafal i (**X-Y**) pan fo—

**X** i fyfyriwr o'r fath—

(i) yng nghategori 1, yn £2,706;

(ii) yng nghategori 2, yn £4,928;

(iii) yng nghategori 3, yn £4,005;

(iv) yng nghategori 4, yn £4,005;

(v) yng nghategori 5, yn £3,578;

**Y** yw'r swm penodedig ym mharagraff (d).

(d) y swm penodedig yw—

(i) £664 os myfyriwr math 1 ar gwrs hyfforddi athrawon yw'r myfyriwr, sy'n

(e) yn bumed, i ostwng **LLC** i ddim llai na'r lefel isaf am y flwyddyn academaidd;

(f) yn chweched, i ostwng **GFT**.

(2) Yn achos myfyriwr cymwys o dan yr hen drefn, yn ddarostyngedig i baragraff (4), pan fo swm sylfaenol y grant ar gyfer ffioedd wedi ei gyfrifo yn unol â rheoliad 17(1) neu 17(7), er mwyn penderfynu swm gwirioneddol y grant ar gyfer ffioedd sy'n daladwy, rhaid i Weinidogion Cymru gymhwyso'r cyfraniad yn unol â pharagraff (1).

(3) Yn achos myfyriwr cymwys o dan yr hen drefn, pan fo swm sylfaenol y grant ar gyfer ffioedd wedi ei gyfrifo yn unol â rheoliad 17(2) neu 17(8) a phan fo un o'r amgylchiadau a nodir yn rheoliad 17(4)(b) neu (d) yn gymwys, er mwyn penderfynu swm gwirioneddol y grant ar gyfer ffioedd sy'n daladwy, rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) yn gyntaf, cymhwyso'r cyfraniad i ostwng swm sylfaenol y grant ar gyfer ffioedd;

(b) yn ail, os nad yw'r cyfraniad wedi ei ddihysbyddu, didynnu swm sy'n hafal i swm sylfaenol y grant ar gyfer ffioedd o'r hyn sy'n weddill o'r cyfraniad gan ostwng gweddill y cyfraniad i ddim llai na dim; ac

(c) yn drydydd, os nad yw'r cyfraniad eto wedi ei ddihysbyddu, cymhwyso'r gweddill yn gyntaf i ostwng **ADG**, ac addesir paragraff (1) yn unol â hynny.

(4) Os yw'r cwrs yn gwrs ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon (ac eithrio cwrs ar gyfer gradd gyntaf), nid oes unrhyw gyfraniad i'w gymhwyso yn erbyn swm sylfaenol y grant ar gyfer ffioedd, a chymhwysir y cyfraniad yn gyntaf i ostwng **ADG**, ac addesir paragraff (1) yn unol â hynny.

(5) Yn achos blwyddyn Erasmus, rhaid i Weinidogion Cymru gymhwyso swm y rhan o'r cyfraniad sydd dros ben £1,380 i ostwng **ADG** yn gyntaf, ac addesir paragraff (1) yn unol â hynny.

(6) Os nad oes hawl gan y myfyriwr i gael grant ar gyfer ffioedd am unrhyw reswm arall, mae **GFF** yn ddim, a rhaid cymhwyso'r cyfraniad yn gyntaf i ostwng **ADG**, ac addesir paragraff (1) yn unol â hynny.

(7) Yn achos myfyriwr cymwys o dan y drefn newydd, rhaid trin **GFF** fel pe bai'n ddim a chymhwyso'r cyfraniad yn gyntaf i ostwng **ADG**, ac addesir paragraff (1) yn unol â hynny.

(8) Yn y rheoliad hwn—

(a) **ADG** yw swm y grant ar gyfer dibynyddion mewn oed, os oes unrhyw swm o gwbl, a gyfrifir yn unol â rheoliad 34;

